# y dinesydd

Rhagfyr 2002 / Ionawr 2003 PAPUR BRO DINAS CAERDYDD A'R CYLCH Rhif 277

# Cyngor Caerdydd yn rhoi hwb i'r Fenter

Cyhoeddodd Cyngor Sir Caerdydd y byddan nhw'n rhoi cefnogaeth ariannol uniongyrchol ar ffurf grant cymunedol i Fenter Iaith Caerdydd. Dyma'r tro cyntaf i'r Cyngor ariannu'r Fenter yn y modd yma a bydd cyfraniad y Cyngor yn cyfateb i gefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg i'r Fenter.

Mae'r swyddogion eisioes wedi dechrau trafod eu cynlluniau ar gyfer y dyfodol gyda'r Cyngor a Bwrdd yr Iaith. Mae cael cefnogaeth y Cyngor yn allweddol i ddatblygiad Y Fenter ac yn rhoi sylfaen gadarn i ehangu'r ddarpariaeth a chyfleoedd i Gymru Cymraeg a dysgwyr yn ein prifddinas.



*Rhodri Williams, Russel Goodway a John Rowlands*

## CYFARFOD BLYNYDDOL MENTER CAERDYDD



Nos Iau, 14 o Dachwedd cynhaliwyd Cyfarfod Blynddol Menter Iaith Caerdydd. Bu'n gyfarfod llwyddiannus iawn. Cafwyd araith amserol, dwysbigol a heriol gan Gadeirydd Menterau Iaith Cymru Cefin Campbell. Bu iddo bwysleisio pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a'r angen dybryd sydd arnom fel cenedl i frwydro drosti i'w chadw'n fyw. Y mae cyfrifoldeb arnom ni hefyd fel brodorion y ddinas gerdded llwybr twf y ddinas a gwneud yn siwr nad ydy'r iaith yn cerdded ar hyd lwybr methiant.

Daeth nifer calonogol i'r cyfarfod, gyda Ystafell Llandaf yn llawn o Gymry a Dysgwyr y Ddinas yn awyddus i glywed am hynt a helynt y Fenter. Newyddion da oedd gan y Fenter i'w chyflwyno yn ogystal. Derbyniwyd llythyr bore Iau gan Gyngor Sir Caerdydd, diwrnod y cyfarfod yn cadarnhau fod grant wedi cael ei gymeradwyo ar gyfer y Fenter ar gyfer blwyddyn ariannol 2002/3. Yn wir, gwireddu breuddwyd misoedd. Bydd dathlu mawr yn y Fenter yn awr. Cyfle i barhau, cynyddu a chryfhau gwaith hyrwyddo'r iaith Gymraeg yn ninas Caerdydd.

Os am rhagor o wybodaeth ar Fenter Caerdydd ffoniwch Sian Lewis 02920 450529 neu ebostiwch Sianlewis@mentercaerdydd.org

## Ymaelodi â'r Urdd

Ar hyn o bryd mae'r Urdd yn annog plant a phobl ifanc i ymaelodi â'r Urdd a hynny cyn 24 Rhagfyr am £4.50. Ceir bathodyn yr Urdd am ddim wrth ymaelodi.

## Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol *Y Dinesydd*

Er i ni annog darllenwyr Y Dinesydd i fynychu'r cyfarfod hwn dim ond naw o ffyddloniaid a ymatebodd i'r gwahoddiad a gynhaliwyd yn Eglwys Bethel, Maes y Deri, Rhiwbina ar nos Iau, 21 Tachwedd. Serch hynny cafwyd cyfarfod buddiol yng nghwmni Wyn James, John Rowlands, Siân Parry Jones, Robin Griffith, Julie Jones, Siân Lewis, Ceri Morgan, Leah Rhydderch a Gwilym Roberts. Ail etholwyd Wyn James yn Gadeirydd a John Rowland yn Is-Gadeirydd a chyswllt Menter Caerdydd, ac etholwyd Ceri Morgan yn Drysorydd newydd i gymryd lle Rheon Tomos a ddymunodd ymddeol o'r swydd. Diolchwyd iddo am ei wasanaeth clodwiw dros y blynyddoedd. Menna Gwyn ydy'r Swyddog Hysbysebion a'r Ysgrifennydd ydy Julie Jones. Robin Jones ydy prif ddosbarthwr *Y Dinesydd* a'i ddirprwy ydy Robin Griffith. Etholwyd Garwyn Davies, Efa Gruffudd, Siân Lewis, Leah Rhydderch, a Gwilym Roberts yn aelodau o'r Pwyllgor. Cafwyd trafodaeth ar ddyfodol *Y Dinesydd* a chysylltiad y papur â Menter Caerdydd a'r gobaith ydy bydd cydweithio yn digwydd a bydd y papur yn datblygu i fod yn lladmerydd mwy effeithiol y Cymry Cymraeg yn ein prifddinas.

## Gohebydd yn ymddeol

Ar ôl gweithio i Bapur Newydd y "Western Mail" am 33 o flynyddoedd mae Clive Betts, Gohebydd Materion Cymreig y papur, ac wedi hynny yn ohebydd y papur yn y Cynulliad, yn ymddeol eleni. Daeth Clive Betts i Gymru o Swydd Gaerhirfryn yn 1969 a phriododd â merch o Sir Gaerfyrddin a dysgodd Gymraeg gan fagu ei blant yn Gymraeg. Cododd wrychyn fwy nag un person yn ystod ei yrfa ond bu'n ohebydd diwyd a chydwybodol gan geisio codi proffil gwleidyddiaeth Cymru. Bydd colled ar ei ôl, yn arbennig gan nad ydy Golygydd newydd y papur yn bwriadu penodi Gohebydd y Cynulliad yn ei le.

**nadolig llawen a blwyddyn newydd dda**

# Y Dinesydd

**Tachwedd, Rhif 277.** **ISSN 1362-7546**
Cyhoeddir *Y Dinesydd* gan Bwyllgor *Y Dinesydd*.
Fe'i cysodir gan PPS, 139 Station Road, Ystum Taf, Caerdydd,
Ffôn: 029 2056 6046, ebost: lorraine@pioneerprinting.co.uk
a'i argraffu gan Wasg Morgannwg, Mynachlog Nedd.

**Golygydd y rhifyn hwn:**
Gwilym E. Roberts

**Golygydd y rhifyn nesaf:**
Garwyn Davies

## NEWYDDION, ERTHYGLAU, ETC.

**Anfonwch ddefnyddiau ar gyfer rhifyn Chwefror 2003 erbyn 20 Ionawr at:**
Mr Garwyn Davies, 27 Baron Rd., Penarth,
Bro Morgannwg (Tel. 029-2070-8253)

**neu at Gadeirydd Pwyllgor *Y Dinesydd*:**
Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## CALENDR

Anfonwch eitemau at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 2062 8754;
e-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).

## DOSBARTHU

**Anfonwch unrhyw sylwadau am ddosbarthu at:**
Mr Robin Jones, 1 Kings Road, Radur, Caerdydd (Ffôn: 2084 2929).

## HYSBYSEBION

Mae'r *Dinesydd* yn ffordd ddelfrydol o hysbysebu ac mae incwm hysbysebion yn hanfodol at gynnal y papur.
Dylai pawb sydd am hysbysebu gysylltu â:
Menna Gwyn, 41 Wingfield Road, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd (Ffôn: 029-2041 8270;
e-bost: menna@gwyn41.freeserve.co.uk)

## CYFRANIADAU ARIANNOL

Mae ein trysorydd, Mr Rheon Tomos, 37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE (Ffôn: 2040 4906) yn croesawu unrhyw gyfraniad bob amser. Cofiwch fod *Y Dinesydd* yn dibynnu am ei barhad ar gyfraniadau'r sawl sy'n ei ddarllen.

## FFURFLEN GYFRANNU

Amgaeaf rodd o £__________ fel cyfraniad at gynnal *Y Dinesydd*.

Enw: ..........................................................................

Cyfeiriad: ....................................................................

.............................................. Côd Post: ..................

Rhif Ffôn: ....................................................................

Anfoner y ffurflen hon at Mr Rheon Tomos,
37 Heol Felindre, Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 7JE.

**CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG I'R CYHOEDDIAD HWN**

Os oes angen gwybodaeth o unrhyw fath am yr iaith Gymraeg, galwch y LLINELL GYSWLLT . . .


**0845 6076070**

Llun - Gwener 10.00am - 12.30pm, 1.30 - 3.30pm
cyfradd galwadau lleol

www.mentrau-iaith.com www.bwrdd-yr-iaith.org.uk www.papurau-bro.com

## CROESAIR gan Rhian Williams

**Rhif 37** **Rhag 02 / Ion. 2003**



**Ar Draws**

1. A oes planhigyn coesgoch i'w gael ar allt Robert bach (6)
5. Mae ateb di-ddiwedd y golygydd yn gadarnhaol (4)
9. 'Dos ____ ar y mynydd
   Lledied y bryn ac ym mhob man' (efel D.O.) (5)
10. Dyrys yw eilio'r ymbil (6)
11. Rhywbeth am ddim yn cynnwys un ag angen (4)
12. 'Dyma Geidwad i'r colledig
    Meddyg i'r _____ rai.' (M.R.) (8)
14. Cyhoeddi, ac yn mynd at ganol y mater (6)
16. Petrus yw sain hynod côr digalon (6)
19. Rholiodd y teigr gwyllt cyn troi'r ddôl tu 'nôl ymlaen (8)
21. Boed i Lois ar yn ail swnio'n debyg (4)
22. Troi'n araf o'th amgylch i ffeindio'r coleg (6)
23. Yr ydym, yn fyr, â gradd mewn dawns (5)

24 a 25. 'Wele ____ y ____,
Cyfaill gwerthfawroca' 'rioed' (D.J.) (6,6)

**I Lawr**

2. Mae Nain Dai wedi drysu yn yr Amerig (7)
3. Mor debyg yw newid bioleg (7)
4. 'Wedi ei phalmantu ganddo Ef
   O ganol ___ ___ ___ nef' (W.W.) (3,1,5)
6. A ellir tewi'r anifeiliaid hyn? (5)
7. Dawn i gi yw ffeindio lleoedd i yfed (7)
8. Y Ffrangeg yn codi gôl o dyfiant peraroglus (5)
13. '___ ___ ___ dan bridd tramor - y dwylaw
    Na ddidolir rhagor' (RWP) (1,4,4)
15. Casgliad o dai clwyfedig yn y Gogledd efallai (7)
17. Ust! Mor sigledig daw Santa yn dymhestlog (7)
18. 'Hosanna, Haleliwia,
    Fe anwyd Brawd i ni
    Fe dalodd ein holl ddyled
    Ar fynydd _____' (D.W.) (7)
19. Diwedd Tomos a'r carn drylliedig (5)
20. 'Diolch iddo,
    Byth am _____ llwch y llawr' (M.R.) (5)

Derbyniwyd naw ymgais a'r oll yn gywir, er gwaethaf y gwall printio yn 14 i lawr! Danfonir y tocyn llyfr at Buddug Roberts, 14 Coryton Crescent, Yr Eglwys Newydd.

Cafwyd yr atebion eraill gan Gwenda Hopkins, Llanisien, H.O.Hughes, Pwllheli; Eira Jones, Y Mynydd Bychan; Margaret Jones, Rhiwbina; E. Haydn Jones, Rhiwbina; Dilys Pritchard-Jones, Abererch, Huana Simpson, Llannonwyr a James Wiegold, Rhiwbina.

**Cystadleuaeth Rhagfyr 02 / Ionawr 03**: Anfonwch eich atebion i: 22 Heol Cae Rhys, Rhiwbina, Caerdydd CF14 6AN. Atebion i gyrraedd erbyn 20 Ionawr 2003.

## Cydymdeimlir:

- â Len Rowlands a'i deulu, Heol Caerffili, Llanisien, ar farwolaeth ei wraig Elma ym mis Tachwedd.
- â'r ddau frawd Penri ac Eynon Williams a'u teuluoedd ar golli eu mam Nancy Williams, y Mynydd Bychan yn 88 oed. Bu'r angladd yn Amlosgfa'r Ddraenen ar 28 Hydref.
- ag Eleanor Mathias ar farwolaeth ei gŵr Alun. Bu'r angladd i'r teulu yn unig yng Nghapel Penuel, Cemaes Sir Benfro ar 8 Tachwedd a bu gwasanaeth coffa iddo yng Nghapel Minny Street ar 9 Tachwedd.
- â theulu y diweddar Hilary Margaret Monk, Penarth yn eu colled fawr. Buodd farw yn Ysbyty Llandochau ar 20 Tachwedd a chynhaliwyd ei hangladd yn yr Amlosgfa ym Margam ar 26 Tachwedd.
- ag Eirian Dafydd, yr Eglwys Newydd a'i theulu ar golli ei thad y Parchg Trefor Davies ym Mhenysarn, Amlwch ar 19 Tachwedd yn 85 oed. Bu'r angladd yng Nghapel Bosra, Penysarn ar 23 Tachwedd ac yn dilyn ym mynwent Llaneilian.

## Llongyfarchiadau

- i'r Athro Glyn E. Jones, cyn-bennaeth Adran y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ar ddyfarnu iddo'r teitl Athro Emeritws gan Brifysgol Cymru.
- Ffion Mai Rhisiart, Treganna ar ddod yn ail yn y gystadleuaeth unawd telyn dan 16 oed yng Ngŵyl Gerdd Dant Cymru a gynhaliwyd yn Nolgellau ar 9 Tachwedd.
- Mike a Mared Surnham ar enedigaeth Ioan Ffransis ar 4 Tachwedd. Ŵyr i Patrick a Carys Whelan, San Hilari yn y Fro. Bu Mared yn un o ddisgyblion cyntaf yn Ysgol Iolo Morgannwg yn y Bontfaen.
- Nick a Gwenda Allen, Redberth, Sir Benfro ar enedigaeth Seren Katie ar 27 Hydref. Ŵyres gyntaf i Billy a Margaret Ladd, Parc y Rhath.

## Newid ym mhatrwm rhaglenni Radio Cymru

Ers 2 Rhagfyr mae Radio Cymru wedi newid tipyn ar ei gwasanaeth ac un o'r newidiadau fydd rhaglen newydd sbon gan Hywel Gwynfryn a Nia Roberts fydd yn cyfuno straeon lleol o bob ardal ynghyd â rhoi sylw i ddigwyddiadau cyfoes Cymreig. Os oes hanesyn neu stori ddiddorol gennych chi i'w adrodd, yna, ffoniwch 029 2032 2789 neu drwy e-bostio hywelania@bbc.co.uk neu anfon llythyr at "Hywel a Nia", Radio Cymru, Ystafell 2001, BBC Cymru, Llandaf CF5 2YQ. Cewch dâl am eich trafferth os defnyddir eich cyfraniad!

## Ysgol Rhydfelen yn dathlu

Eleni, mae Ysgol Rhydfelen yn ddeugain oed ac fel rhan o'r dathliadau cynhelir Cyngerdd Mawreddog yn Oriel Prifysgol Morgannwg yn Nhrefforest ar nos Sadwrn 14 Rhagfyr am 7.30. Pris y tocyn ydy £10 sy'n cynnwys lluniaeth ysgafn. Y gwr gwadd fydd Gwilym Humphreys, prifathro cyntaf yr ysgol. Am docyn ffoniwch yr ysgol ar 01443 486818.

## Aur i Fwyty'r Armless Dragon yn ardal Y Waunddyfal

Cynhaliwyd y noson wobrwyo gyntaf "Gwir Flas Cymru" ar 14 Tachwedd yng Ngwesty'r Celtic Manor Casnewydd i anrhydeddu cwmnïau a phobl yn y diwydiant Bwyd a Diod yng Nghymru. Aeth y prif wobr i Rachel Rowlands o Laethdy Organig Rachel yn Aberystwyth ond dyfarnwyd statws aur i fwyty'r *Armless Dragon* yn y categori cwmnïau bach/cymhedrol. Llongyfarchiadau i'r Bwyty hwn.

## Er cof am Alun Mathias

Mae rhywun yn cael ei demtio wrth ysgrifennu teyrnged i Alun i ddyfynnu adnod gyntaf ym mhennod 44 o Ecclesiasticus yn Yr Apocryffa: "Canmolwn yn awr y gwyr enwog..." Byddai Alun ei hun, oherwydd ei wyleidd-dra, yn syfrdan ond mae'n hollol addas. Fel aelod o Eglwys Minny Street roedd yn enwog yn ein plith ond roedd hefyd yn enwog ym myd ysgolheictod (fel y clywsom yn ei angladd gan yr Athro Ceri Lewis).

Ni ellir sôn am Alun heb sôn am William Salesbury, y defnyddiodd William Morgan ei gyfieithiad ef o'i Destament Newydd ym Meibl 1588. Ac ni ellir sôn am William Salesbury heb sôn am Alun. Mae'r ddau enw yn mynd gyda'i gilydd.

Pan fyddwn yn galw gydag Eleanor ac Alun ar eu haelwyd groesawus fe fyddwn yn ei gyfarch, rhwng difri' a chwarae - "Sut mae'r Athro heddiw?" neu "Sut mae'r Doethur?" Gwenu wnâi Alun, ond teimlwn bob amser ym mhresenoldeb rhywun arbennig ac eto y mwyaf gostyngedig o ddynion.

Ganed Alun yng Nghaerdydd, a'i chwaer Nansi hefyd. Rhai o ychydig Gymry Caerdydd bryd hynny a faged yn Gymry Cymraeg. Âi i ysgol Cardiff High fel y gelwid hi ac un o'i bennaf ffrindiau yno oedd Alun Griffiths, hefyd yn aelod ym Minny Street.

Ei weinidog cyntaf oedd y Parchg Rowland Hughes, yna daeth y Parchg R J Jones a mawr oedd ei barch tuag ato ef a'i briod wrth gwrs ac felly dod yn ffrind agos at eu meibion Hywel a Gwilym (a edrychai i fyny at Alun hyd at y diwedd.) Parhaodd parch Alun at bob gweinidog ar ôl hynny. Dyna fraint iddynt hwythau.

Gwasanaethodd adeg y Rhyfel yng Ngwlad Belg, Ffrainc, a'r Eidal a chael ei glwyfo'n ddrwg iawn mewn damwain gas. Bu ymweliadau cysol ag ysbytai yn rhan fawr o fywyd Alun ar ôl hynny ond nid oedd byth yn achwyn; yn hytrach diolchai am bob ysbyty a meddyg a nyrs.

Nid oedd neb yn ffyddlonach nag ef ac Eleanor yn yr oedfaon ar y Sul ac ymhob cyfarfod o'r Gymdeithas. Fwy nag unwaith bu'n arweinydd i rai o deithiau'r Gymdeithas i fannau hanesyddol ac Alun yn ei ffordd ddiymhongar ond cwbl sicr, yn ein goleuo yn y ffordd fwyaf difyr.

Cysylltir ysgolheictod fynychaf â difrifoldeb mawr ond yr oedd gan Alun stôr o hiwmor - braidd yn annisgwyl yn wir. Bu'n diddori aelodau o'r Gymdeithas fwy nag unwaith wrth adrodd storïau doniol am weithiau Coleg a throeon trwstan mewn ambell i lety.

Dim rhyfedd fod aelwyd Alun ac Eleanor yn un o'r rhai dedwyddaf mewn bod ac yn llawn croeso bob amser ac i bob ymwelydd- y sgwrs yn felys ac adeiladol ac anghofiech am salwch Alun yn y gymdeithas gynnes.

Fel aelodau o Minny Street yr ydym wedi colli aelod unigryw. Ni wyddai neb fwy am hanes yr eglwys a'i dechreuadau. Fel ysgolhaig a darlithydd yn y Brifysgol, gadawodd un o lyfrgelloedd preifat mwyaf yn y ddinas mae'n siwr. Dim rhyfedd fod ei sgwrs bob amser yn ddifyr, adeiladol a chyfoethog. Ond gadawodd drysor mwy - cof o gyfaill a chyd-aelod triw a phriod annwyl. Dim rhyfedd y bydd Eleanor o bawb yn teimlo'r golled a deil ein cydymdeimlad yn ddwys iawn â hi.

Alun - y gwylaidd foneddwr cu.

**Huw Ethall**

(ymddangosodd yr erthygl hon yn "Yr Aelod" sef cylchgrawn Eglwys Minny Street)

## Gwasanaeth Noswyl Nadolig yn Rhiwbina

Cynhelir gwasanaeth carolau am 11 o'r gloch ar Noswyl Nadolig yng Nghapel Bethel, Maes y Deri, Rhiwbina dan nawdd Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina. Croeso cynnes i bawb.

## Croeso i Fan Zhini i Gaerdydd!

Mae perchennog tîm pêl-droed Dinas Caerdydd sef Sam Hammam yn wr balch heddiw gan iddo lwyddo i ddenu y chwaraewr pêl-droed Fan Zhini i Gaerdydd ac yntau yn 32 oed ac wedi chwarae 107 o weithiau dros ei wlad Tseina. Cyn cael ei ddenu i Gaerdydd bu'n chwarae i Glwb Pêl-droed Dundee ac ar hyn o bryd mae e wedi arwyddo cytundeb â Dinas Caerdydd tan ddiwedd y tymor. Bu'n gapten tîm pêl-droed ei wlad a bu'n chwarae yn nhîm Tseina ers pan oedd e'n 18 oed. Pob lwc iddo fe a gweddill tîm Dinas Caerdydd o rwan hyd ddiwedd y tymor. Dylai deimlo'n ddigon cartrefol yn ein dinas â chymaint o'i gyd-wladwyr yn byw yma.

## Rheolwr Cynllunio o Gaerdydd

Rheolwr Cynllunio i Habitat yn Llundain ydy Bethan Gray o Gaerdydd. Bu'n ddisgybl yn Ysgol Glantaf cyn graddio ym Mhrifysgol De Montfort yng Nghaerlyr a mynd i weithio i Gwmni Habitat. Hi a gynlluniodd y gwely "Novona" yn siopau Habitat sy'n cynnig digon o le i gadw dillad gwely a chynfasau ynddo.

## Newyddion da i Gaerdydd

Cynhelir y Rali Network Q yng Nghaerdydd am o leiaf pedair blynedd arall ac mae hynny'n golygu cyhoeddusrwydd mawr i'r ddinas gan yr ystyrir bod miliynau o bobl yn gwylio'r Rali hon ar y teledu dros y byd a'r gobaith ydy denu llawer o bobl i ymweld â Chaerdydd a gweddill Cymru ar eu gwyliau. O hyn ymlaen noddir y Rali gan y Cynulliad ac Awdurdod Datblygu Cymru a newidir enw'r Rali i fod yn "Rali Cymru G.B."

## Medal Syr T H Parry Williams

Yn flynyddol rhoddir medal Syr T H Parry Williams gan Eisteddfod Genedlaethol Cymru i anrhydeddu person sy wedi gweithio am flynyddoedd gyda phobl ifanc yn eu milltir sgwâr. Os hoffech enwebu rhywun ar gyfer y wobr yna cysylltwch â Swyddfa'r Eisteddfod, 40 Parc Ty Glas, Llanisien am ragor o fanylion ar 029 2076 3777. Rhaid derbyn unrhyw gais erbyn 31 Ionawr 2003.

## Cyfrol werthfawr

Ydych chi wedi sicrhau eich copi o'r gyfrol "Gorau Arf", pris £19.99 eto, sy'n adrodd hanes twf sefydlu ysgolion Cymraeg yng Nghymru rhwng 1939-2000. Cewch chi eich ysbyrdoli wrth ddarllen y gyfrol hon. Mynnwch gopi!

## Llyfrau Cymraeg o ddiddordeb

Mae Gwasg Gomer newydd gyhoeddi cyfrol gan Allan James, Llantrisant ond yn enedigol o Faesteg o'r enw *Diwylliant Gwerin Morgannwg*. Mae hi'n gyfrol eitha swmpus a hynod ddiddorol. Ei bris ydy £12.95.

Yna ceir dwy gyfrol gan Wasg Carreg Gwalch sef *Pac o Feirdd* £4.99 a *Beti â'i Phobl-1* £6.50. Elinor Wyn Reynolds, Treganna ydy un o'r beirdd yn *Pac o Feirdd* a cheir hanes y diweddar Eldra Jarman, Cyncoed ac Ali Yassine, Tre Bute yng nghyfrol *Beti a'i Phobl*. Mae digon o ddewis o lyfrau i'ch cadw yn brysur dros y Nadolig!


## Eisteddfod ar y We Fyd Eang

Cynhelir ail Eisteddfod ar y We Fyd Eang mewn cydweithrediad â'r Amgueddfa Werin a Llyfrgell Genedlaethol Cymru yn 2003 a datgenir enwau'r enillwyr ar y we ar 1 Mawrth 2003. Dylid anfon pob ymgais drwy'r post neu drwy e-bost erbyn 14 Chwefror 2003. Rhestir cystadlaethau yr Adran Gymraeg isod ac am ragor o fanylion dylid cysylltu â Meinwen Ruddock yn yr Amgueddfa yn Sain Ffagan - ffôn 029 2057 3427 neu drwy'r e-bost e-steddfod@aocc.uk

1. Cerdd y Gadair: Treftadaeth
2. Cywydd neu gerdd yn y mesur rhydd: Yr A470
3. Pennill o hysbyseb i'w osod mewn ffenestr siop o dan y teitl: Ar goll - "Siencyn"
4. Englyn: Y Dyn Llaeth
5. Pennill beddargraff doniol: Agored
6. Limerig: A glywsoch chi'r stori ryfeddol ...
7. Brawddeg o'r llythrennau yn y gair NANTWALLTER
8. Brawddeg neu frawddegau a phob gair yn dechrau â'r llythyren A
9. Ysgrif (Dysgwyr): Dathlu Gŵyl Dewi
10. Traethawd: Atgofion am Chwaraeon a Theganau Plentyndod

## Cyngerdd Arbennig

Cynhaliwyd Cyngerdd gan Gôr Philharmonic Caerdydd yn Neuadd Gerdd Prifysgol Caerdydd ar nos Sadwrn, 9 Tachwedd, er cof am y diweddar Meinwen Guy, aelod o'r Côr ac yn wraig i Alun Guy, yr arweinydd. Cafwyd noson deilwng a'r neuadd yn llawn er gwaethaf y tywydd garw. Cafwyd datganiadau gan y Côr a'r Unawdwyr oedd y Soprano Miriam Bowen a'r Tenor Aled Hall a chafwyd datganiadau ar y delyn gan Kathryn Rees a chanodd Heather Jones a'r grwp Magi. Y cyfeilwyr oedd David Martyn Jones, Angela Livingstone ac Owen Saer. Llongyfarchiadau i'r Côr a'u harweinydd ymroddedig ar noson i'w chofio.



## Anrhydeddu dau ddyn dewr

Ddwy flynedd yn ôl pan oedd Jonathan Davies, y cyn chwaraewr rygbi o Landaf ar ei wyliau yn Nhresaith, Ceredigion aeth ati i achub dwy chwaer mewn trybeini yn y môr. Un arall a ddangosodd dewrder oedd Owen Phillips, y Barri a geisiodd achub dyn rhag shark yn Siapan pan oedd o'n syrffio yno. Llwyddodd e a syrffiwr arall i dynnu'r dyn i'r lan ond yn anffodus buodd farw o'i anafiadau. Mewn seremoni ym Mhalas St Iago yn Llundain ar 15 Tachwedd anrhydeddwyd Jonathan ac Owen pan gyflwynwyd tystysgrifau iddynt ar ran Cymdeithas Syrffio Achub Bywyd gan Ddug Caeredin. Llongyfarchiadau i'r ddau.

## Gŵr o Riwbina yn y newyddion eto

Andrew Davies o Riwbina ydy'r sgrifennwr teledu mwyaf toreithiog a dylanwadol ar hyn o bryd. Bu'n ddisgybl yn ysgol Ramadeg Yr Eglwys Newydd cyn ennill gradd a dod yn athro Saesneg ac yna yn ddarlithydd ym Mhrifysgol Warwick. Mae ei dad, a fu'n athro Ffrangeg yn Ysgol Uwchradd y Bechgyn, Caerdydd, yn dal i fyw yn Rhiwbina. Bu Huw Jones, Pennaeth S4C yn ddisgybl iddo yn yr ysgol honno. Yn ddiweddar crewyd tipyn o gyffro pan ymddangosodd addasiad gan Andrew Davies o'r nofel *Tipping the Velvet* ar y teledu a'r ddau addasiad diweddaraf a welwyd ar y teledu oedd *Daniel Deronda* gan George Eliot a *Dr Zhivago*.

## Dathlu'r Hen Galan

Bydd Dawnswyr Twrch Trwyth yn dathlu'r Hen Galan ar 11 Ionawr yn Neuadd Fawr Castell Caerffili ac mae croeso i bawb i ymuno yn y dathlu. Am ragor o fanylion ffoniwch 029 2030 9490 neu ar y we - twrchtrwyth@ntlworld.com

# Newyddion o'r Eglwysi

## Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg

Nos Fawrth 29 Hydref cynhaliwyd Swper Diolch, a braf oedd croesawu Arfon Jones atom, a chael gair o anogaeth gan Arfon ar ddiwedd y pryd bwyd a ddarparwyd ar ein cyfer.

Llongyfarchiadau i Dr Chris a Dr Angharad Woolley ar enedigaeth eu mab, Ioan Dafydd, a phob dymuniad da yn y cyfnod yma o ddisgwyl triniaeth i Dafydd yn Ysbyty Great Ormond Street, Llundain.

Cydymdeimlwn fel eglwys ag Angharad Ellis a'r teulu yn eu profedigaeth. Ar fore Gwener 25 Hydref, wedi rhai misoedd o waeledd, bu farw mam Angharad, Mrs Anne Evans, Dre-fach, Llanelli.

Ar fore Sadwrn 26 Hydref cynhaliwyd bore coffi i ddysgwyr, gyda Lynne Davies yn arwain y sgwrs. Soniodd ychydig am gyfoeth ein traddodiad Cristnogol yma yng Nghymru, a gwelsom luniau o'r enwogion. Yna ar fore Sadwrn 23 Tachwedd croesawyd y dysgwyr atom i fore Tearcraft, a daeth nifer ynghyd i glywed Maggie Hughes o Bontypridd yn sôn am y gwaith ac i brynu nwyddau a chardiau ar gyfer y Nadolig. Cynhelir y cyfarfod nesaf i'r dysgwyr am 10.30 a.m. ddydd Sadwrn 25 Ionawr 2003. Bydd Dr E. Wyn James yn arwain y sgwrs ar 'Williams Pantycelyn a'i Emynau'.

Am 6.00 p.m., ar nos Sul 15 Rhagfyr, cynhelir ein Gwasanaeth Carolau, ac am 10.00 a.m. fore Sul 22 Rhagfyr, cynhelir yr Oedfa Nadolig Deuluol.

Ar 10 Tachwedd cynhaliwyd te croeso i'r dysgwyr, a braf oedd gweld cynifer o'r aelodau'n cymryd rhan yn yr addoliad gyda phregeth gan ein gweinidog, y Parch. Gwynn Williams, i gloi. Cynhelir y Te ac Oedfa i'r Dysgwyr nesaf ar brynhawn Sul 9 Chwefror 2003.

Pob dymuniad da i Steve Bowen a Lois Dafydd ar eu priodas ddydd Sadwrn 21 Rhagfyr, ac i Steve yn ei swydd newydd fel cyfreithiwr gyda chwmni Francis and Buck, Heol y Gadeirlan.

Llongyfarchiadau i'r Parch. Ddr Noel Gibbard ar gyhoeddi'r gyfrol *On The Wings of the Dove: The international effects of the 1904-05 Revival*. Dyma gyfrol ddifyr sy'n olrhain hanes un o gyfraniadau pennaf Cymru i'r byd.

## Bethel, Rhiwbina

Ar ôl cyfnod o 75 mlynedd mi ddaeth yr oedfaon Saesneg yn y capel ym Maes-y-Deri i ben ddechrau Rhagfyr. Roedd nifer yr addolwyr di-Gymraeg wedi gostwng a'r baich ariannol wedi mynd yn drwm.

Codwyd y capel gan yr Eglwys Fethodistaidd yn 1927 wrth i ardal Rhiwbeina ddatblygu a'r galw am addoldai gynyddu.
Mi symudodd aelodau Bethel i'r capel ugain mlynedd yn ôl. Roedd ein capel gwreiddiol yng nghanol y ddinas wedi cael ei ddymchwel i wneud lle i ganolfan siopa Dewi Sant. Cawsom loches gan yr Undodiaid yn West Grove am bedair blynedd cyn gwneud cais i gael rhannu'r adeilad ym Maes-y-Deri. Cawsom groeso cynnes gan yr addolwyr di-Gymraeg a bu cydweithredu da ar hyd y blynyddoedd. Gan fod y gynulleidfa Gymraeg yn llawer cryfach o ran nifer gofynnwyd inni gymeryd cyfrifoldeb am yr adeiladau. Ac mi wnaed hynny drwy eu hadnewyddu'n llwyr. Mi gafwyd cefnogaeth Cymry Cymraeg Rhiwbeina o'r cychwyn cyntaf ac mae'r gefnogaeth honno yn parhau ac yn cynyddu.

## Salem, Treganna

**Llangrannog**

Cafodd 50 o aelodau Salem benwythnos rhagorol ddiwedd Medi yn Llangrannog. Cawsom dywydd da ac roedd pawb wedi mwynhau'n fawr. Mi fydd yn sicr yn werth trefnu taith tebyg yn y dyfodol!

**Cwrdd Diolchgarwch**

Cawsom wasanaeth arbennig yn ystod y mis ac fe wnaed casgliad at Apel Bangladesh.

**Priodas**

Priododd Carys a Jake Griffiths yn Salem ar y 5ed o Hydref. Rydym yn dymuno pob hapusrwydd iddynt yn eu bywyd priodasol.

**Bedydd**

Cawsom dystio i fedydd Betsan Glain, merch Huw a Catrin Tudur ar y 3ydd y Dachwedd. a Guto Ifan, mab Sion a Meinir Williams ar y 17eg o Dachwedd. Ein dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

**Noson Nawdd**

Eto eleni cynhaliwyd Noson Nawdd gan y bobl ifanc ar y 15fed o Dachwedd. Pawb yn chwarae ping pong drwy'r nos, gan godi arian at Blant mewn Angen. Roedd yn llwyddiant aruthrol a phawb wedi mwynhau, er yn flinedig iawn ddydd Sadwrn!

**Oedfa Arbennig**

Cynhaliwyd oedfa arbennig iawn yn Salem yng ngofal Sian Parry Jones, sydd newydd ddychwelyd o Lesotho gyda Dolen Cymru. Fe rannodd ei phrofiadau anhygoel a ni, ac fe gawsom i gyd agoriad llygad wrth glywed ei hanes. Rydym i gyd yn ddiolchgar iddi.

**Blaen-rybudd**

Cynhelir oedfaon arbennig ar y 15fed o Ragfyr - drama'r geni yn y bore a llith a charol yng nghwmni'r bobl ifanc gyda'r nos.
Bore Nadolig - Cynhelir oedfa Plygain am 7 y bore. Croeso i bawb.

## Ebeneser, Caerdydd

Yn Eglwys Ebeneser ar dydd Sadwrn, 9 Tachwedd 2002, priodwyd Donna Sumner a William Newall, gyda'r Gweinidog, Y Parchg Alun Tudur yn gwasanaethu. Ein dymuniadau gorau i'r par priod.

Ym mis Tachwedd casglwyd £500 gan aelodau'r eglwys ar gyfer mudiad Gobaith i Gymru (GiG). Mudiad newydd yw GiG, gydag Arfon Jones, un o'n blaenoriaid, yn gweithio iddo. Amcan GiG yn syml yw gwasanaethu achos Iesu Grist ymhlith Cymry Gymraeg trwy hybu ymwybyddiaeth a lledaenu'r neges Gristnogol, yn enwedig ymysg pobl ifanc. Mae mwy o wybodaeth am GiG ar y safwe www.gobaith.org .

Bu plant yr Ysgol Sul yn ddiwyd yn casglu nifer o anrhegion bychain at ei gilydd mewn bocsys esgidiau ar gyfer eu rhoi i blant mewn gwledydd llai breintiedig y Nadolig hwn. Mae hon yn ymdrech flynyddol gennym fel rhan o ymgyrch rhyngwladol Operation Christmas Child, ac eleni cafwyd 37 bocs o anrhegion i'w dosbarthu.

## Minny Street, Caerdydd

Mae'r Gymdeithas wedi ailgychwyn wedi seibiant dros yr haf. Cawsom fendith arbennig yn y gwasanaeth agoriadol gyda dwy o ffyddloniaid yr oedfaon, Mrs Eilonwy Jones a Mrs Yolande Davies yn sôn am eu profiadau o ddioddef anhwylder yr arennau a derbyn trawsblaniad. Gyda'r Eglwys wedi penderfynu dewis Ymchwil i Glefyd yr Arennau fel ei helusen am y flwyddyn i ddod, bu Eilonwy ac Yolande hefyd yn sôn am y ddwy gymdeithas fydd yn elwa o'n

hymdrech, a'r gwaith sydd yn cael ei gwneud ganddynt. Tri arall o'n plith fu yn arwain y noson gyntaf yn y festri. O dan y teitl "Noson y Broydd" cawsom ein tywys o Geredigion i Fôn ac i Drefaldwyn yng nghwmni Mrs Elinor Davies, yr Athro Glyn Jones a'r Athro Sioned Davies a phawb wedi mwynhau a gwerthfawrogi cyfraniad y tri yn fawr iawn. Mae diddordeb mawr mewn hen bethau a hen lestri yn arbennig felly roedd yna edrych ymlaen at y noson yng nghwmni Mr Heddwyn Richards ac yntau'n dod i sôn am lestri "Gaudy Welsh". Roedd y noson yn gyfle i rai o'r aelodau ddod ac ambell i lestr gyda hwy a chafwyd noson hwylus arall wrth i ni gael ein tywys drwy'r maes arbenigol yma. Mae pwyllgor y Gymdeithas wedi trefnu bod yna raglen llawn a diddorol ar ein cyfer dros y misoedd nesaf ac edrychwn ymlaen at y cyfarfodydd bob yn ail nos Fawrth.

Wrth i'r oedfaon yng ngofal aelodau barhau, cawsom arweiniad John Albert Evans, ei briod Tegwen a dwy o'u merched, Elin a Rebeca, yn yr oedfa hwyrol ar Dachwedd 10. Yn yr oedfa, canolbwyntiwyd ein sylw ar wahanol ffiniau a ddaw ar ein traws yn ein bywydau ac yn ein heglwysi gyda John Albert yn cydio a pharhau a thema pregeth Owain Llŷr rai wythnosau ynghynt. Mae'r oedfaon misol cynnar hefyd yn parhau i ddenu cynulleidfa niferus a thros y misoedd diwethaf cawsom arweiniad Mrs Rhiannon Evans a Mr Hywel Pennar yn yr oedfaon yma gyda nifer o blant a phobl ifanc yn cynorthwyo.

Hyfrydwch oedd cael tystio i fedydd Mared Llwyd Williams, merch fach Eirug Wyn a Ilona (Penylan) yn yr oedfa fore Sul, Hydref 27.

Dymunwn yn dda i Ffion (merch Mrs Sally a Mr Tom Evans) a Christiaan Robinson yn dilyn eu priodas ym Minny Street ddydd Sadwrn, Tachwedd 16.

## Tabernacl Caerdydd

Dymunwn yn dda i Nia Cray a Paul McVeigh ar eu priodas yn ddiweddar. Mae Nia yn nith i Edith Roberts ac yn un o ffyddloniaid yr oedfa foreol

Cafodd 33 o aelodau'r Gymdeithas gyfle i ymweld â Phenuel Cwmafon ddiwedd Hydref, ac fe gafwyd croeso twymgalon yno. Diolch i Verina Matthews am drefnu'r rhaglen ar ran y Tabernacl. Cyfrannodd y côr bedair eitem, a bu nifer o unawdau, deuawdau, a phedwarawd. Roedd parti adrodd y merched ar eu gorau fel arfer, ac fe gyflwynodd Eirwen Davies, eu hyfforddwraig, ddarlleniad o waith Rhydwen Williams. Roedd cyfraniad offerynnol Steffan a Marged Jones yn ddisglair, a'r cyfan wedi ei lywio gan Illtyd Lloyd.

Cefnogi Cyfeillion Armenia: Daeth nifer dda o aelodau Eglwysi Cymraeg Caerdydd ynghyd i gyntedd adeilad y Cynulliad i ddangos diddordeb a chefnogaeth yn ymdrech pobl Armenia i geisio cael cydnabyddiaeth i'r hil laddiad a ddigwyddodd yn 1915 dan law Twrci. Llywyddwyd y cyfarfod gan weinidog y Tabernacl. Yn ystod yr arwerthiant at Gymdeithas y Beibl codwyd £185.46 ar y stondin a fu o dan ofal y Tabernacl. Diolch i bawb am eu cefnogaeth.

Cynhaliwyd yr oedfaon diolchgarwch eto eleni a diolch i Dr Hugh Matthews am lywio'r oedfa yn absenoldeb y gweinidog. Gwireddwyd £205 tuag at Operation Agri sydd o dan nawdd Cymdeithas Genhadol y Bedyddwyr.

## Croeso'n ôl


Croeso'n ôl o Batagonia i'r Parch Gareth Reynolds, Parc y Rhath, ar ôl bod yn gweinidogaethu yn y Wladfa am chwe mis.

# Ysgol Mynydd Bychan

### Llongyfarchiadau

Braf iawn oedd clywed for Mrs Mai Giles wedi rhoi genedigaeth i fachgen bach, Gruffydd Dylan, ar 4 Hydref. Llongyfarchiadau calonnog i Mai a'i gŵr Marc, a dymunwn flynyddoedd o hapusrwydd iddynt fel teulu.

Testun arall o lawenydd oedd clywed for Miss Catrin Ladd-Lewis, a'i chymar Rhys, wedi penderfynu priodi (o'r diwedd meddai'r staff!!). Dymunwn yn dda iddynt hwythau.



### Diolchgarwch

Eleni, gwahoddwyd y Tad Ieuan Wyn Jones, Grangetown i siarad â ni yn ein gwasanaeth cynhaeaf. Cafwyd anerchiad amserol a oedd yn ein hatgoffa o anghenion trigolion y trydydd byd a'n dyletswydd ni i roi cymorth i'r rhai sydd mewn angen. Yn ôl ein harfer, daeth plant y dosbarth derbyn a phecynnau o ffrwythau a llysiau i'r ysgol ac fe'i dosbarthwyd i drigolion di-gartref y ddinas, trwy law Tŷ Gobaith. Gwnaethpwyd casgliad ariannol yn ystod y gwasanaeth tuag at Apêl Rwmania. Cyfanswm y casgliad oedd £275.

### Ymweliad addysgiadol

Fel rhan o hyfforddiant athrawon yr ysgol aeth y staff ar ymweliad â'r Oriel Genedlaethol Gelf, Llundain ar 1 Tachwedd. Yno, cawsom ein hebrwng o amgylch yr oriel gan ddysgu sut i gyflwyno gweithiau a pheintiadau i blant. Edrychwn ymlaen, fel staff i feithrin y syniadau a gyflwynwyd a'u hychwanegu i gynlluniau yr ysgol.

### GWEITHDY PLANT YN S4C.

Bu i Fenter Caerdydd ynghyd ag Adran Raglen Plant, Planed Plant, S4C drefnu bod y 55 o aelodau clwb drama Gymraeg yn cael mynd i stiwdio Planed Plant i gymeryd rhan mewn gweithdy cyflwyno. Plant sy'n mynychu Ysgolion Cyfrwng Cymraeg yw aelodau'r clwb yma a bu iddynt fwynhau yn arw.

Cafodd y plant gyfle i gyflwyno o flaen y camera ac yna i wylio eu hunain ar y teledu. Bu iddynt gwestiynnu cyflwynwyr Planed Plant a'u holi ynglyn ar sut i sicrhau dyfodol ddisglair ym myd y cyfryngau. Hoffai'r Fenter ddiolch i Angharad Garlick a chriw Planed Plant am roi o'u hamser.



# TUDALEN YR URDD

## Twrnament Pêl-rwyd Cenedlaethol yr Urdd

Ar 4 Tachwedd fe aeth tîm pêl-rwyd blwyddyn 8 Ysgol Gyfun Bro Morgannwg i dwrnament pêl-rwyd cenedlaethol yr Urdd. Cynhaliwyd y twrnament yng Nghanolfan Chwaraeon UWIC, yng Nghyncoed, Caerdydd. Roedd pawb yn gyffrous iawn, gan mai dyma oedd y tro cyntaf i ni fel tîm i gystadlu yn erbyn holl ysgolion Cymru. Nid oeddem yn siwr iawn o'r safon ond roeddem i gyd yn barod i wneud ein gorau glas.

Roedd llawer iawn o ysgolion gwahanol. Roedd 30 ohonynt, ysgolion o bob rhan o Gymru. Roeddem ni yng ngrwp 5 i ddechrau. Yn ein grwp ni roedd Ysgol Plasmawr. Roeddem yn benderfynol o'i curo gan ein bod yn adnabod llawer ohonynt yn barod. Nhw oedd y tîm cyntaf i ni chwarae, chwaraeom yn dda, ond fe gymrodd hi dipyn o amser i ni gynhesu. Yn anffodus roedd hyn yn anfantais i ni gan mai dim ond 5 munud bob ffordd oedd y gemau. Y sgôr terfynol oedd 4-4. Y gêm nesaf y chwaraeom ni oedd yn erbyn Bro Myrddin. Nid oeddem wedi chwarae yn erbyn nhw o'r blaen, felly nid oeddem yn gwybod beth oedd eu safon, ond fe chwaraeom yn dda ac o ganlyniad fe enillom 5-4.

Ar ôl y gêm yna fe aeth popeth yn dda i ni. Fe enillom yn erbyn Cwm Rhymni 4-3 ac fe enillon yn erbyn Dyffryn Teifi 4-3 a chyn i ni sylweddoli roeddem wedi cyrraedd y rownd gyn-derfynol!

Roedd pawb yn gyffrous iawn, ond roedd yn rhaid i ni beidio mynd yn rhy gyffrous oherwydd nid oedd y diwrnod drosodd eto!

Cyn gynted â chwibanodd y ddyfarnwraig chwiban gyntaf y rownd gyn-derfynol roedd pawb yn benderfynol o ennill. Fe ddefnyddiom ni symudiadau gwych trwy gydol y gêm ac o ganlyniad i'n gwaith caled fe enillom 8-0!! Roedd pawb mor hapus, roeddem yn y rownd derfynol!! Ond roedd yn rhaid i ni weithio'n galed os oeddem eisiau ennill y twrnament. Roeddem yn chwarae yn erbyn tîm gwych o Ogledd Cymru, sef Maes Garmon.

Trwy gydol y rownd derfynol, fe weithiodd pawb yn galed iawn. Roedd y tensiwn yn uchel. Fe newidiodd y sgôr gymaint o weithiau roedd hi'n anodd ei gofio. Ond, roedd cwpwl o eiliadau ar ôl o'r gêm ac roedd hi'n 4-4. Fe dderbyniodd Jody Davies y bêl ar ochr bella'r cylch saethu, ac fe benderfynodd saethu .......fe sgoriodd!!!!!! Gôl wych, a phan oedd y bêl yn dod allan o'r rhwyd fe chwibanwyd chwiban olaf y gêm a'r twrnament. Ni oedd enillwyr Cymru gyfan! Roedd pawb yn teimlo'n wych!! (yn enwedig Miss Williams). Y sgôr terfynol oedd 5-4 i ni!

Ar ôl y gêm fe gynhaliwyd seremoni fechan i wobrwyo'r tîm buddugol. Fe dderbyniom ni dlws anferth a medal aur yr un (nid aur go iawn wrth gwrs). Diwrnod bythgofiadwy i aelodau'r tîm sef:

| | |
|---|---|
| G S: | Jody Davies |
| G A: | Anna Carling |
| W A: | Michelle Ritter |
| C: | Frankie Eveleigh |
| W D: | Bethan Pilcher |
| G D: | Elin Jones (c) |
| G K: | Rachael Roberts |

Eilyddion: Madlen Burgess a Sophie Taylor-Moore

Edrychwn i gyd ymlaen at flwyddyn nesaf i weld os byddwn yr un mor llwyddiannus!

**Elin Jones 8B**

# Ysgol Gyfun Bro Morgannwg

## Agoriad Swyddogol y Bloc Cerddoriaeth

Braf oedd cael y fraint o groesawu Rhodri Ogwen Williams, brodor o'r Barri i agor ein Bloc Perfformio ar 29 Hydref. Dathlwyd yr agoriad gyda pherfformiad o gyfansoddiad Thomas Blumberg, Blwyddyn 9 a enillodd Cystadleuaeth Cyfansoddi Technoleg Cerddoriaeth gan wneud deunydd o'r Stiwdio Recordio a rhaglenni cyfrifiadurol diweddaraf.

## Cynghaneddu

Croesawodd yr Adran Gymraeg Caryl Isaac yn ddiweddar i roi blas ar gynganeddu i ddisgyblion Blwyddyn 9. Cafodd y disgyblion hwyl yn dysgu am glec y gynghanedd ac edrychwn ymlaen at groesawu Caryl yn ôl i ddarllen eu cynnyrch barddonol.

## Gwasanaeth Diolchgarwch

Cafwyd Gwasanaeth Diolchgarwch arbennig yn yr Ysgol yng nghwmni Mrs Elenid Jones o Gymorth Cristnogol. Thema'r Gwasanaeth oedd y dioddefaint yn Afghanistan a chlywodd y disgyblion am yr amodau byw erchyll yn y rhan hon o'r byd. Diolchwn i Miss Fflur Bedwyr am baratoi gwasanaeth arbennig i gyd-redeg â thema araith Mrs Elenid Jones.

## Gwasanaeth dathlu hanner can mlynedd lwyddiant o Addysg Gymraeg y Fro

Cynhaliwyd Gwasanaeth arbennig yng Nghapel Tabernacl y Barri i ddathlu hanner can mlynedd lwyddiant o addysg Gymraeg yn y Fro. Paratowyd eitemau am y bum Ysgol Gynradd Gymraeg yn y Fro ac Ysgol Gyfun y Fro. Ymhlith yr eitemau oedd darlleniadau gan gyn-ddisgyblion yn y Barri yn ystod yr hanner can mlynedd diwethaf. Mwynhad pur oedd gwrando ar araith arbennig y Parchg Eifion Powell yn dathlu twf addysg Gymraeg ym Mro Morgannwg.

## Ymweliadau'r Adran Hanes

Cafwyd cyfnod prysur cyn y gwyliau hanner tymor, gyda'r adran yn mynd ar ddau ymweliad. Ar 14 Hydref aeth disgyblion Blwyddyn 7 i Bentref Cosmeston am y bore. Cafwyd amser braf yno yn cerdded o amgylch y pentref ac yn dysgu am y gymdeithas ganoloesol.

Ar 17 Hydref aeth disgyblion Blwyddyn 9 i Amgueddfa Lofaol Cymru: Pwll Mawr. Yno cafwyd cyfle gwych i ddatblygu gwybodaeth y disgyblion am amodau gwaith y glowyr.

Diolch yn fawr iawn i'r rhieni a ddaeth gyda ni ar yr ymweliadau. Roedd eu cymorth a chefnogaeth yn gyfraniad mawr tuag at lwyddiant yr ymweliadau.

**Claire Rowlands, Arweinydd Pwnc Hanes**



## Golffwyr Gwalia

Cynhaliwyd cystadleuaeth Golff ar Gwrs Llanfair ym Muallt ar Ddydd Sadwrn 28 Medi i frwydro am 'Tlws John Elfed'. Daeth nifer o dimau Cymraeg eu hiaith ynghyd gan gynnwys tîm o olffwyr y Brifddinas, deiliaid y Tlws y llynedd. Colli wnaeth tîm y Brifddinas eleni ac aeth y Tlws i dîm Lloi Llyn! Bydd y gystadleuaeth nesa ar Gwrs y Borth Ynyslas ym Medi 2003.
Am fanylion pellach ffoniwch 029 2039 4021.

# Plasmawr

## Sioe Gerdd - 'Saim'

Ar ôl wythnosau o ymarfer roedd Ysgol Plasmawr yn barod i berfformio'r Sioe Gerdd ddiweddaraf i gynulleidfaoedd am dair noson. Roedd neuadd yr ysgol dan ei sang a'r set yn edrych yn wych. Grease, neu Saim fel y'i gelwid oedd y cynhyrchiad ac rwy'n siwr bod pawb a welodd y sioe wedi'i mwynhau. Roedd yr holl gast yn edrych fel cymeriadau'r ffilm yn eu sgertiau tri chwarter a'u jins tynn; pob un ohonynt â brwdfrydedd anfeidrol nid yn unig wrth ganu ond hefyd wrth actio a dawnsio. Fflur Dafydd oedd yn actio rhan Sandy a Robert Carling oedd yn dynwared John Travolta fel Danny. Elenid Hatcher, Alex Clatworthy, Sophie Elsmore ac Elen Hughes oedd y 'Pink Ladies' a chriw cŵl y 'T-Birds' oedd Geraint Passmore, Carl Riley, Daniel Lloyd a Matthew Wheeler.Yn sicr, crewyd awyrgylch arbennig gyda'r gerddoriaeth 'Roc a Rôl' a chafwyd naws anhygoel ar y llwyfan ac ymysg y gynulleidfa. Roedd yn deimlad arbennig cael perfformio ar y llwyfan yn ystod y dawnsio a bwrlwm y caneuon. Gobeithio bod y gynulleidfa wedi profi'r un wefr.

Llongyfarchiadau mawr i'r holl ddisgyblion a oedd yn rhan o'r sioe a diolch yn fawr ar ran y cast i'r athrawon a'r staff am dreulio'u nosweithiau'n ymarfer a sicrhau llwyddiant y perfformiadau.

**Alex Clatworthy**

## America

Ar ôl cyrraedd yr ysgol am bump o'r gloch y bore ar Hydref 17eg roeddem yn barod i gychwyn ar ein taith i Washington DC. Fe wnaethom deithio i faes awyr Baltimore a chyfarfod â Martha a oedd yn ein tywys o gwmpas tra oeddem yn Washington. Cyrhaeddom Westy'r Harrington a chawsom ychydig o oriau i ddadbacio cyn mynd i'r 'Hard Rock Cafe' am bryd o fwyd hyfryd! Treuliasom y diwrnodau nesaf yn edmygu adeiladau a golygfeydd enwog y ddinas. Roedd cerdded ar hyd Pennsylvania Avenue yn union fel cerdded ar hyd set ffilm. Yn ystod ein hamser yn Washington fe welsom nifer o'r adeiladau gan gynnwys y Tŷ Gwyn sy'n eithaf bach i gymharu â'r hyn a welir ar y teledu. Un o'r profiadau mwyaf emosiynol oedd ymweld ag amgueddfa yr Holocost. Anodd yw credu sut oedd pobl yn gallu trin eu cyd-ddynion mewn ffordd mor anfoesol a chreulon.

Ar y pumed diwrnod fe wnaethom deithio trwy Philadelphia ar ein ffordd i Efrog Newydd. Roeddem yn teimlo mor fach wrth edrych ar yr adeiladau enfawr. Cawsom gyfle i weld yr Empire State Building yn y nos a siopa yn Times Square.

Ar ein diwrnod llawn olaf yn Efrog Newydd, gwelsom Lower Manhattan, Chinatown, Little Italy, Soho a South Street Sea Port. Cyn teithio ar gwch draw i Ellis Island i weld y 'Statue of Liberty' fe gerddom at Ground Zero i weld adfeilion y 'Twin Towers'. Y noson honno, fe welsom dîm y New York Knicks yn chwarae pêl fasged yn erbyn Utah Jazz yn Madison Square Gardens. Profiad gwych!

Cawsom gyfle i siopa yn Times Square unwaith eto cyn ffarwelio â'r Big Apple (am y tro) a chychwyn ar ein taith hir nôl i Blasmawr!

**Rhiannon Dew a Rhian Ellis Jones**

## 'Othello' ym Manceinion

Ar ddydd Mercher, yr wythfed ar hugain o Hydref, fe deithiodd criw o ddisgyblion blwyddyn 12 yr ysgol i Theatr y 'Royal Exchange' ym Manceinion er mwyn mwynhau cynhyrchiad rhagorol o'r ddrama 'Othello' gan Shakespere. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn astudio'r pynciau Saesneg a/neu Drama i safon AS neu Lefel A, ac felly roedd yn brofiad defnyddiol a gwerth chweil, â'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn canmol y perfformiad.

Cychwynnodd y daith deirawr am wyth o'r gloch y bore, a gan nad oedd y perfformiad yn dechrau tan ddau o'r gloch y prynhawn, roedd gan y disgyblion a'r athrawon ddigon o amser i siopa yn ninas gyffrous Manceinion cyn y perfformiad. Ar ôl awr a hanner o fwynhau yn y ddinas fe aethom i weld y ddrama. Y ddrama 'Othello' yw un o drasiediau enwocaf Shakespere ac fe bortreadwyd y cymeriadau yn effeithiol ac yn fyw. Fe gychwynon ni yn ôl i Gaerdydd am chwech o'r gloch yr hwyr ar ôl diwrnod llwyddiannus lle gwelwyd drama gan Shakespere yn cael ei pherfformio ar ei gorau.

**Medi Warburton**

## Llongyfarchiadau

- i Stephanie Dyer sydd wedi cael ei dewis i chwarae yng Ngherddorfa Ieuenctid Genedlaethol Cymru. Hoffai'r ysgol longyfarch y bechgyn sydd wedi bod yn canu yn Tosca gyda'r WNO.
- i Rhys Thomas ac Erin Dafydd sydd wedi cael eu dewis i nofio i dimau'r Sir ac hefyd i Rebecca Williams a ddaeth yn 11eg yn ras Trawsgwlad De Cymru ac yn 21ain yng Nghystadleuaeth Trawsgwlad Cymru. Hoffwn longyfarch holl dimau chwaraeon yr ysgol am eu llwyddiant a'u dyfalbarhad yn ystod y tymor cyntaf, yn enwedig felly tim pêl-rwyd blwyddyn 7 am ennill eu tair gêm gyntaf.



*Y 'Pink Ladies' yn cysuro Sandy'*



*Y 'T-Birds' yn mwynhau'r dawnsio'*

# Glantaf

## Glantaf A'r Cenhedloedd Unedig

Ar y cyntaf o Dachwedd, mynychodd Ysgol Glantaf gynhadledd Heddwch y Cenhedloedd Unedig i Ysgolion Uwchradd De Ddwyrain Cymru. Cafodd yr ysgol y dasg anodd, ond heriol, o gynrychioli Iraq, a'r cyfle i amddiffyn hawliau a safbwyntiau Sweden a Syria. Nid cenhedloedd yn unig oedd yn cael eu cynrychioli'n y gynhadledd, a chynrychiolwyd Cymdeithas Ffoaduriaid Cymru ar y diwrnod gan genhadaeth o'r ysgol. Hwn oedd cyfarfod cyntaf Model Cynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Cynhaliwyd sawl cyfarfod model yn y gorffennol, ond wedi misoedd o baratoi gwelwyd ffrwyth llafur Cenhedloedd Unedig Cymru ar waith. Daeth nifer o ddisgyblion brwdfrydig wyth Ysgol Gymraeg De Ddwyrain Cymru at ei gilydd i gynrychioli safbwyntiau 25 o wledydd yn siambrau mawreddog Cyngor Sir Rhondda Cynon Tâf.

Agorodd y diwrnod â chroeso gan y llywydd, nid Koffi Anan, ond Guto Thomas, gohebydd gwleidyddol y BBC. Cyflwynodd y dulliau o weithredu, ac heb wastraffu rhagor o amser, dechreuodd y cyfarfod hanesyddol hwn gydag araith agoriadol America. Cafwyd ymateb tanbaid a gelyniaethus i'w safbwyntiau gan wledydd mor amrywiol âg Afghanistan, Ariannin, Iwerddon ag Iran. Dadleuodd Glantaf yn frwd ar ran ei chenhedloedd mabwysiedig, a gwelwyd sawl cynghrair newydd ac annisgwyl yn ffurfio yn ystod y diwrnod! Roedd y diwrnod yn gyfle gwych i gymdeithasu, ond hefyd yn gyfle i weld y Cenhedloedd Unedig yn gweithredu eu grym trwy'r ifanc. Trafodwyd llawer o faterion cyfoes pwysig, gan gynnwys arfau niwclear Iraq a sut i ymdrin â ffoaduriaid Afghanistan. Credaf, ag eithrio cynrychiolwyr America, i holl ddisgyblion De Ddwyrain Cymru bleidleisio yn unfrydol yn erbyn defnyddio grym milwrol yn erbyn Iraq. Cynrychiolwyd y "wasg ryngwladol" yn y siambr hefyd. Roedd bron yn amhosib trafod a chenedl arall yn dawel heb i aelod o'r wasg edrych dros eich ysgwydd yn chwilio am "scoop"! Byddai'r wasg yn mynd ati wedyn i argraffu a chyhoeddi ei storiau ar fwrdd gwyn yng nghornel y siambr ddadlau.

Braf oedd gweld pobl ifanc yn defnyddio eu doniau gwleidyddol, ac yn medru cydweithio. Gobeithio yn wir y gall y gwleidyddion yn Llundain a Washington ddod i gytundeb, a sicrhau heddwch parhaol yn y cyfnod yma o ansicrwydd rhyngwladol. Rwyf yn ffyddiog bod y gynhadledd yma wedi tanseilio'r syniad nad oes gan ieuenctid heddiw ddiddordeb na gwybodaeth am faterion cyfoes a gwleidyddol, yn wir, cynyddwyd ymwybyddiaeth gyffredinol bob un ohonom o waith a swyddogaeth y CU. Cafwyd diwrnod bythgofiadwy, ac roedd yna wledd o ddadlau a thrafodaethau cynhwysfawr. Yn sicr, roedd ambell ddarpar wleidydd y dyfodol yn bresennol! Coronwyd y diwrnod wrth i Ethni Jones a Stephen Thomas o Cenhedloedd Undedig Cymru gyflwyno y tlws siarad cyhoeddus i Ysgol Glantaf am ei chyrfaniad i'r diwrnod. Rhaid diolch i'r athrawon am eu cymorth, ac i Gymdeithas y Cymod a Chenhedloedd Unedig Cymru am drefnu diwrnod godidog.

Tomos Dafydd
Siarad Cyhoeddus

## Llongyfarchiadau

- i dîm siarad cyhoeddus Glantaf ar eu llwyddiant diweddar yng Nghystadleuaeth Siarad Cyhoeddus y Rotari. Cafodd Tomos Dafydd a Luke Pearce eu cymeradwyo fel cynigydd a gwrthwynebydd a derbyniodd Rhys Meggy y wobr fel cadeirydd y noson. Dymunwn yn dda iddynt yn y rownd nesaf a gynhelir yng ngorllewin Cymru. Diolch yn fawr i Mrs. Eleri Jones a fu'n eu hyfforddi.



## Hanesion a thrafferthion y Cwmni Dawns.

Fel y gwelwch ma' tymor y Fari wedi cyrraedd unwaith eto. Ma'n gwneud i hen ddyn fel fi resynu wrth feddwl mor glou ma' rhod y flwyddyn yn troi. Daeth hwn yn amlwg rhyw bythefnos nôl pan aeth y Cwmni Dawns i gystadlu yn yr Ŵyl Gerdd Dant neu'r Tooth Music Festival fel y'i gelwir mewn rhai mannau. Y criw i gyd, hynny yw, rhyw ddeugain ohonon ni lan i Ddolgellau. 'Na chi dywydd,gwynt a glaw tir lithriadau a llifogydd. Damwain a hap oedd i bawb gyrraedd mewn pryd. Roedden ni i gyd yn aros yng Ngwesty'r Wynnstay ym Machynlleth. Croeso gwych a bwyd gwychach mynte'r rhai oedd yn aros yno ar y nos Wener. Ma'r gwesty yn hynafol iawn ei naws, hynny yw, ces i gysgu mewn gwely fourposter am y tro cynta. Beth bynnag, roedd dau dîm 'da'r Cwmni, y set ifanc yn dawnsio dehongliad unigryw, ffres o'r ddawns "Ffair y Bala", dawns newydd wedi ei chreu gan Mavis Williams, Abertawe, a'r mamau a'r tadau yn dawnsio dehongliad mwy traddodiadol. Dau ddehongliad hollol wahanol o ran naws wedi eu coreograffo gan Christine, yr ifanc yn dawnsio i gasgliad o ganeuon fel "Joio Byw" a'r lleill i "Hen Ferchetan". Fel ma'r Sais yn dweud "the new kids on the block" aeth i'r llwyfan a dod yn drydydd mewn cystadleuaeth wych a llongyfarchiadau i Nantgarw gyda llaw am ennill. Cofiwch chi rwy'n credu taw "joio byw" oedd arwyddair y penwythnos o gofio bod Cymru wedi ennill hefyd. Ond yn y cyswllt hwn ma' lot 'da'r criw ifanc i ddysgu, yr hen griw oedd yn dal ar eu traed ac yn canu am bedwar y bore ac i lawr am frecwast wedyn.

Ma' bywyd yn dal yn brysur, dawnsio lawr yn y Bae ac yn Sain Ffagan ac mi fydd teithiau'r Fari yn ein tywys o gwmpas y Fro a'r Blaenau cyn pen dim. Os oes rhywun am iddi alw gadewch i ni wybod. Dw i, fel ostler, ddim yn addo pa fath o hwyl fydd arni nac ychwaith na roddiff hi ofan i ryw blentyn neu gilydd ond ma'n siwr 'da fi bydd hwyl yn ei chwmni. Mi fydd hi i fyny yn yr Hen Dafarn yn Llan ar ddydd Calan yn ôl ei harfer, ma'n hynny'n saff i chi. So i wedi clywed os oes canu Plygain i fod yn Eglwys Llangynnwyd eleni. Roedd y gwasanaeth a gawson ni yno llynedd yn wefreiddiol. Ches i ddim cyfle i ddiolch i bwy bynnag a drefnodd yr achlysur.


Beth ddaw yn y flwyddyn newydd wn i ddim. Mi fyddwn ni fel Cwmni yn dal i weithio i wella ein safonnau. Ma' criw o aelodau newydd wedi ymuno 'da ni. Ceson nhw dipyn o agoriad llygad yn Nolgellau ond ma' nhw'n dysgu'n glou. Ma' sôn am daith dramor yn ystod y Pasg ond fe lifith dipyn o ddwr erbyn hynny. Ma'n siwr 'da fi y cewch chi wybod beth sy'n digwydd os yw'r golygydd yn ddigon hael 'da i ofod. Pwt i orffen, does dim gair o Gymraeg ar y trên sy'n mynd i fyny na'r arddangosfa sy ar gopa Constitution Hill yn Aberystwyth.

# COFIO IEUAN GWYNEDD

(crynodeb o ddarlith a roddwyd gan Rhiannon Gregory yng Nghapel Ebeneser i aelodau Cymrodorion Caerdydd)

Ganrif a hanner yn ôl, ym 1852, bu farw yma yng Nghaerdydd un o gymwynaswyr mawr Cymru, sef Ieuan Gwynedd, wedi oes fer ond arwrol.

Mae ar bob teulu a chenedl angen mytholeg wrth lunio'i delwedd ohoni ei hunan, a chawn hanes cynnar Ieuan Gwynedd yn fytholegol ei naws. Fe'i ganed ym 1820 yn un o chwech o blant i Evan a Catherine Jones ym Mryntynoriaid ger Dolgellau, cartref tlawd, crefyddol, ond mewn bro gyfoethog ei diwylliant.




*Llun: Robin Griffith*

Mae'r fam Gymreig aberthol yn rhan o wead ein hymwybyddiaeth genedlaethol ni, ac roedd dylanwad Catherine ar ei mab yn dyngedfennol yn ei hanes. A hithau'n ferch ifanc yn gweini yn y cylch, cerddodd i'r Bala a phrynu beibl Thomas Charles. Rhoddodd orchudd coch arno, ac o'r "Beibl Coch", fel y'i gelwid gan y teulu, y dysgodd Catherine i'w mab ddarllen, er mai deuddeng niwrnod o addysg a gafodd hithau. Ysbeidiol iawn hefyd fu addysg ei mab oherwydd ei iechyd gwael.

Pan oedd yn 21 oed cafodd ei dderbyn gan Athrofa Aberhonddu. Yna, ac yntau'n 25, fe'i sefydlwyd yn weinidog ar gapel Saron, Tredegar, gyda rhwng 600 a 700 o aelodau. Saith mlynedd wedyn, ac yntau ond yn 32 oed, roedd Ieuan Gwynedd yn marw yma yng Nghaerdydd. Ond roedd yr hyn a wnaeth yn y saith mlynedd hynny yn wir orchestol.

Os ewch i fynwent hen gapel yr Annibynwyr yn y Groeswen, ger Caerffili, fe welwch fedd Ieuan Gwynedd nesaf at fedd Caledfryn. Yn ôl yr hanes, dilynwyd ei arch gan bum mil o alarwyr, a ffyrdd troellog cefn gwlad yn ddu gan y dyrfa fawr.

Heddiw, ganrif a hanner wedi ei farw, mae'n ddyledus arnom ei goffáu fel newyddiadurwr, ymgyrchydd a gwladgarwr, a gyfrannodd gymaint at newid meddylfryd Cymru, ac yn arbennig fel un a wyrdrodd ddelwedd merched Cymru.

Yn ôl ym 1845, rhaid meddwl bod bywyd yn felys i Ieuan Gwynedd. Priododd a ganwyd plentyn, ac roedd yntau ynghanol bwrlwm rhyfeddol afieithus bywyd Cymraeg gogledd Gwent, ynghyd â rhai fel Ieuan Gwyllt, Thomas Stephens, Carnhuanawc, yr Arglwyddes Charlotte Guest a'r anghymarol Arglwyddes Llanofer ac Eisteddfodau'r Fenni. Ond ym 1847 newidiodd ei fyd, a dyma ddechrau gofidiau mawr: bu farw ei fam, ei wraig a'i blentyn, ac yn y flwyddyn dyngedfennol honno cyhoeddwyd adroddiad y Llyfrau Gleision.

Pan glywodd am y Comisiwn, cynigiodd roi tystiolaeth, ond fe'i gwrthodwyd. R. J. Derfel yn ddiweddarach a fathodd yr enw "Brad y Llyfrau Gleision" fel teitl i'w bryddest, gyda'r adlais o Frad y Cyllyll Hirion; ac mae'r enw yn cyfleu tanbeidrwydd ymateb y Gymru Ymneilltuol i enllib yr adroddiad.

Er gwaethaf ei drasiedïau personol a chyflwr bregus ei iechyd, bwriodd Ieuan Gwynedd ati i arwain yr ymateb i'r adroddiad.

Fel Dafydd gynt, heriodd rym Goliath yr Ymerodraeth Brydeinig, ac o fewn blwyddyn cyhoeddodd "A Vindication of the Educational and Moral Condition of Wales", a'r flwyddyn ganlynol "Facts, Figures and Statements in Illustration of the Dissent and Morality of Wales: an Appeal to the English People". Defnyddiodd ystadegau'r Cofrestrydd Cyffredinol ei hun i ddisodli honiadau ffug y Llyfrau Gleision, gan droi tystiolaeth hwnnw yn ei erbyn ei hun! Tipyn o gamp, yn wir.

Erbyn hyn roedd Ieuan Gwynedd, oherwydd ei waeledd, wedi gorfod rhoi'r gorau i'r weinidogaeth. Daeth yn aelod yng nghapel Ebeneser, Caerdydd, a byw mewn tŷ yn East Terrace, yr union fan lle mae maes parcio Rapports heddiw. Bu'n olygydd The Principality am gyfnod a chomisiynodd gyfres o gartwnau gwych gan Hugh Hughes yn dilorni'r Llyfrau Gleision. Ond roedd yn ormod o Radical ac Ymneilltuwr a Chymro i'r perchennog, ac ymddiswyddodd. Aeth y perchennog ymlaen, mae'n debyg, i sefydlu'r Western Mail.

Un o gyhuddiadau mwyaf annheg a chreulon y Llyfrau Gleision oedd eu hymosodiad ar ferched Cymru, eu haniweirdeb a'u bryntni. Unwaith eto, dyma Ieuan Gwynedd yn mynd ati i'w hamddiffyn ac i ddechrau ymgyrch i wella'u byd.

Casglodd Ieuan y ffeithiau gan adeiladu ei ddadl mewn Saesneg coeth, deifiol ei ergyd. Yng ngeiriau'r Parchedig H M Hughes, gweinidog Capel Ebeneser, Caerdydd, yn nechrau'r ugeinfed ganrif, "Ni orffwysodd hyd nes cyrraedd yr Arglwydd John Russell ei hun, y Prifweinidog ar y pryd, a'r diwedd fu dymchwel a damio adroddiad y Comisiwn mor llwyr fel na feiddiodd na Chyngor na Senedd seilio dim arno."

Ym 1850 cyhoeddodd rifyn cyntaf *Y Gymraes*, y cylchgrawn cyntaf i ferched yn Gymraeg. Dywed beth oedd ei resymau dros gyhoeddi'r cylchgrawn sef hybu addysg i ferched a chreu ynddynt yr awydd i ddarllen ac i ysgrifennu ac i gyhoeddi eu gwaith: "meithrin ysbryd cenedlaethol yn eu plith a'u cael i ymhyfrydu yn eu hiaith", ac wrth gwrs anogi purdeb moesol a dirwest.

Bu dylanwad Y Gymraes yn bellgyrhaeddol. Erbyn 80au'r bedwaredd ganrif ar bymtheg roedd mwy o ferched ym Mhrifysgol Cymru nag mewn unrhyw brifysgol yn Lloegr, a chwaraeodd merched ran allweddol ymhob agwedd ar fywyd cyhoeddus yng Nghymru gydol yr ugeinfed ganrif.

Tafliad carreg o'r man lle safai'r tŷ lle bu byw a lle bu farw y mae Churchill Way - prifddinas Cymru yn rhoi teyrnged i un o feibion enwocaf Lloegr, ond yn methu gosod dim i gofio Ieuan Gwynedd a ymdrechodd mor galed i ddyrchafu ei genedl ei hun.

## Calendr y Dinesydd

**(Mae Calendr y Dinesydd hefyd ar wefan Menter Iaith Caerdydd: http://www.mentercaerdydd.org/cymraeg/digwydd.htm)**

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Dr R. Alun Evans ar 'Y Blygen ym Maldwyn', yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: 'Cywair y Nadolig' gydag Eilonwy Jones, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.

**Gwener, 13 Rhagfyr**
Cylch Cadwgan: Lyn Ebenezer yn siarad am brofiadau rhith awdur, yn Ysgol Gynradd Creigiau am 8.00 p.m.

**Sadwrn, 14 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, am 7.30 p.m. Swper y Llanciau. Trefnydd: Bryn Evans.

**Llun, 16 Rhagfyr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Cinio Nadolig, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 1.00 p.m.

**Llun, 16 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Hen Adeiladau Sain Ffagan.' Sgwrs gan Gerallt Nash, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mercher, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas y Tabernacl, Yr Ais, am 6.30 p.m. Canu Carolau ar yr Ais, yng ngofal Hywel Jones a Ceri Preece.

**Mercher, 18 Rhagfyr**
Cymdeithas Ty'r Cymry: Parti Nadolig y Gymdeithas, yn Nhy'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Sul, 22 Rhagfyr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Gwasanaeth Nadoligaidd yng Nghapel Pen-rhiw, Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, am 2.15 p.m.

**Llun, 24 Rhagfyr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Oedfa Gannwyll ym Methel, Rhiwbina, am 11.00 p.m.

**Sul, 5 Ionawr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Plygain yng Nghapel Bethesda'r Fro am 3.00 p.m.

**Mercher, 8 Ionawr**
Merched y Wawr (Bro Radyr): 'O Ddydd i Ddydd.' Sgwrs gan Betsan Powys. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Iau, 9 Ionawr**
Cylch Cinio Merched Caerdydd yng Ngwesty'r Phoenix, Llanisien, am 7.00 ar gyfer 7.30 p.m. Noson dan ofal Aled Gwyn. Manylion pellach: 2065-7730 neu 2062-4878.

**Gwener, 10 Ionawr**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Sgwrs gan yr Athro J. Gwynfor Jones, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Mercher, 15 Ionawr**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan John Albert Evans, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Gwener, 17 Ionawr**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: ' "O Lwynpiod i Lwynpia": Cyhoeddi Detholiad Newydd o Waith James Kitchener Davies.' Darlith gan Manon Rhys yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

**Llun, 20 Ionawr**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Bore coffi, a sgwrs gan Mary Wiliam ar y testun 'Ambell Drysor', yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 10.30 a.m.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: Noson yng nghwmni Côrdydd (Arweinydd: Sioned James), ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Llun, 20 Ionawr**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Dr John Lewis (Ysbyty'r Eglwys Newydd) ar 'Iselder', yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Ionawr**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Darlith gan y Parch. Harri Parri ar y testun 'Fe'm ganwyd innau'n fab i fy rhieni', yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mawrth, 21 Ionawr**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson yng nghwmni'r dawnsiwr gwerin, Rhodri Jones, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Gwener, 24 Ionawr**
Merched y Wawr (Bro Radyr): Noson Santes Dwynwen yng nghwmni'r Athro Hywel Teifi Edwards. Manylion pellach: 029-2056-4406 neu 029-2084-2929.

**Sadwrn, 25 Ionawr**
Yr Eglwys Efengylaidd Gymraeg: Bore Coffi i Ddysgwyr (gan gynnwys sgwrs fer ar Williams Pantycelyn a'i emynau gan Dr E. Wyn James), yn adeilad yr Eglwys, Rhymney St., Cathays, rhwng 10.30 a 12.00 o'r gloch. Croeso cynnes i bawb.

**Gwener, 31 Ionawr**
Cymdeithas Eglwys y Crwys: 'Fy Niddordeb I.' Pedwar o aelodau'r eglwys yn rhannu eu profiadau, yn Eglwys y Crwys, Heol Richmond, am 7.30 p.m.

**Sadwrn, 1 Chwefror**
Sefydliad Prydeinig y Galon: Cyngerdd gan Gôr Dynfant a Shân Cothi yn Ysbyty'r Brifysgol am 7.30 p.m. Tocynnau: £6 oddi wrth Anne Innes (029-2061-6230) a Margaret Barrett (029-2075-2908).

**Llun, 3 Chwefror**
Cymdeithas Gymraeg Rhiwbina: 'Profiadau yng ngwlad Persia.' Darlith gan yr Athro Eric Sunderland, ym Methany, Rhiwbina, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 4 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Ymweliad gan Gymdeithas Eglwys Salem, Treganna, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Gwener, 7 Chwefror**
Cymrodorion Caerdydd: Sgwrs gan Dr Angharad Price ar 'O! Tyn y Gorchudd', yn festri Eglwys y Tabernacl, Yr Ais, am 7.15 p.m.

**Gwener, 14 Chwefror**
Cymdeithas Cymry'r Eglwys Newydd: Noson yng nghwmni Alwyn Samuel, yn festri Bethel, Eglwys y Bedyddwyr, Heol Pen-llin, Yr Eglwys Newydd, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Chwefror**
Merched y Wawr, Cangen Caerdydd: Noson yr Aelodau, yn festri Eglwys Minny Street, Cathays, am 7.30 p.m.

**Llun, 17 Chwefror**
Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd: Darlith gan Stuart Thompson ar waith yr RSPB, yn Ystafell G77 ym Mhrif Adeilad Prifysgol Caerdydd, Parc Cathays, am 7.30 p.m.

**Mawrth, 18 Chwefror**
Cymdeithas Cymrodorion y Barri: Noson gerddorol yng nghwmni Euros Rhys, yn festri'r Eglwys Annibynnol Gymraeg, Sgwâr y Brenin, Y Barri am 7.15 p.m.

**Mawrth, 18 Chwefror**
Cymdeithas Eglwys Minny Street: Cwis gydag Idwal Hughes, yn festri Eglwys Minny Street am 7.30 p.m.

**Mercher, 19 Chwefror**
Cymdeithas Tŷ'r Cymry: Anerchiad gan Ken Kane, yn Nhŷ'r Cymry, 11 Heol Gordon, am 7.00 p.m.

**Gwener, 21 Chwefror**
Cylch Llyfryddol Caerdydd: 'Diwylliant Gwerin Morgannwg.' Darlith gan Allan James yn Ystafell X/0.04, Adeilad y Dyniaethau, Safle Rhodfa Colum, Prifysgol Caerdydd, am 7.00 p.m.

*Anfonwch fanylion at Dr E. Wyn James, 16 Kelston Rd., Yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 2AJ (Ffôn: 029-2062-8754; E-bost: JamesEW@caerdydd.ac.uk).*

## CLWB RYGBI YN SERENNU YN Y COED DUON

'Sent packing', 'bundled out', 'stunned', - rhai o'r geiriau a ddefnyddiwyd gan y wasg i ddisgrifio buddugoliaeth gofiadwy Clwb Rygbi Cymry Caerdydd dros Sêr Y Coed Duon yn nhrydedd rownd Cwpan Worthington yn ystod trydydd penwythnos mis Tachwedd. Y 'Sêr' yw deiliaid y cwpan, do'n nhw heb golli y tymor hwn cyn y frwydr, ond yn dilyn ceisiau Huw Davies, John-Paul Barker, Alun 'Gas' Evans a Mark Beynon, a dau drosiad gan Jean-Paul Barker, ro'dd arwyr y Clwb yn fuddugoliaethus o 24 -15. Mi fydd y cam nesa' ar y llwybr I Stadiwm y Mileniwm yn cael ei gymeryd yn erbyn naill ai Cwmtillery Saracens neu Aberbargoed (dyddiad I'w gadarnhau)...yn



y cyfamser, ma' Sêr Y Coed Duon yn byw ar atgofion y gorffennol. Os ydy e'n unrhyw galondid, ma' nhw wedi hawlio'u lle rhwng cloriau llyfrau hanes Clwb Rygbi Cymry Caerdydd. www.clwbrygbi.com

# DEINTYDD

*Gwasanaeth Iechyd (NHS) / Preifat*
*yn dal i dderbyn cleifion newydd*

**Osian Davies,** BDS (Cymru)
28 Heol y Santes Fair, Caerdydd
(drws nesaf i McDonalds)

029 2037 1393

# TRYDANWR

gyda dros 20 mlynedd o brofiad

Ailweirio, gosod systemau larwm a chawodydd

*PRISIAU RHESYMOL*

Ffoniwch
**Caerwyn Davies**
ar **029 20868208**
neu **07967 558664**

*Ydy **Alcohol** yn costio mwy nag arian i ti?*

Paid digalonni! Mae 'na ateb!

AA

**Alcoholigion Anhysbys**

Ffonia **0845 7697555** a gofyn am gael sgwrs **yn Gymraeg** gyda rhywun sy'n deall.

# GWRES GWYN

Oes rhywun wedi gwasanaethu eich bwyler eleni? Nac oes?

Cysylltwch â Gwyn Rhys Jones

Gosodwr Cofrestredig Rhif 190209

82 Pendwyallt, Yr Eglwys Newydd

**07974 80 30 89**

gosod a symud rheiddiaduron, adnewyddu bwyleri ac ystafelloedd ymolchi, diweddaru systemau ac unedau rheoli, darganfod a datrys namau mewn systemau, tystysgrifau diogelwch

